RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2022 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

**Siambr y Cyngor**
Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd L A Tomkinson |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd R Williams |

**Zoom**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd W Owen |

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

**Siambr y Cyngor**
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Zoom**
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -

**Zoom**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Lisles | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd J Edwards |

## 1 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

Cais Rhif: 21/1478.
Y Cynghorydd Loretta Ann Tomkinson, Buddiant Personol, "Rwy'n Gynghorydd Tref ar gyfer Tref Pontypridd"

Cais Rhif: 22/0162
Y Cynghorydd Danny Grehan, Buddiant Personol, "Rwy'n gweithio i Heledd Fychan AS sy'n cyflwyno'r cais"

Cais Rhif: 22/0349.
Y Cynghorydd Danny Grehan, Buddiant Personol a Buddiant sy'n Rhagfarnu,

“Rwy’n ysgrifennydd ar gyfer y grŵp sy’n cyflwyno'r cais”.

Cais Rhif: 22/0425.
Y Cynghorydd Jill Bonetto, Buddiant Personol a Buddiant sy'n Rhagfarnu, “Rydw i'n llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac yn llywodraethwr dros dro ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol 3-16 oed”.

Cais Rhif: 22/0425.
Y Cynghorydd Loretta Ann Tomkinson, Buddiant Personol, “Rwy’n llywodraethwr dros dro ar gyfer Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn”.

## 2 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 3 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 4 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 10, 17, a 24 Mawrth 2022, yn amodol ar gynnwys ymddiheuriadau Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2022.

## 5 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod

## 6 CAIS RHIF 21/1690

**Bwriad i adeiladu annedd newydd gyda garej ynghlwm (Ailgyflwyno 21/1208/10) (Ffin llinell goch ddiwygiedig wedi dod i law 10/03/2022), Tir ger Cartref Melys, Heol Llechau, Wattstown, Porth.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle er mwyn gweld y safle sydd wedi cael ei gynnig ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

**7 CAIS RHIF: 22/0425**

**Darparu ysgol 'pob oed' 3-16 newydd, dymchwel rhai adeiladau ac amnewid neu adnewyddu rhai eraill, maes parcio newydd i staff, maes parcio bysiau a man gollwng a chasglu disgyblion, gwaith cysylltiedig, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Lôn yr Ysgol, Rhydfelen, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Carl Thomas (Cefnogwr). Cafodd ef bum munud i annerch yr Aelodau mewn perthynas â'r cynnig uchod.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles, am y cais gan fynegi ei phryderon a'i gwrthwynebiad mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac argymhellodd fod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar ychwanegu amod mewn perthynas â thriniaeth i'r ffin. Ar ôl ystyried a thrafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol sydd wedi'i nodi isod:

> “Er y manylion sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo, mae angen cyflwyno manylion pellach mewn perthynas â'r driniaeth i'r ffin gyffredin rhwng yr ysgol a holl eiddo Hawthorn Villas er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gytuno'n ysgrifenedig i'r cynlluniau yma, a hynny cyn creu'r man parcio ar gyfer casglu a gollwng disgyblion. Bydd y manylion y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu rhoi ar waith cyn i'r man parcio ar gyfer casglu/gollwng gael ei ddefnyddio.
>
> Rheswm: I sicrhau amwynder preswyl, yn unol â Pholisi AW5, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r cais uchod (Cofnod Rhif 1), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

**8 CAIS RHIF: 21/1478**

**Newid defnydd o swyddfa i 26 o fflatiau myfyrwyr, gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad presennol (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig a chynllun diwygiedig ar 20/01/2022), Yr Hen Lys, Stryd y Llys, Y Graig, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher, mewn perthynas â'r cynnig uchod a chais 21/1479 sydd wedi'i nodi yng Nghofnod 9 isod, a chyflwynodd nifer o bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais, ynghyd â chais 21/1479 sydd wedi'i nodi yng Nghofnod 9 isod, i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

9 **CAIS RHIF: 21/1479**

**Cais ardal gadwraeth - Newid defnydd o swyddfa i 26 o fflatiau myfyrwyr, gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad presennol (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig a chynllun diwygiedig ar 20/01/22), Yr Hen Lys, Stryd y Llys, Y Graig, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

10 **CAIS RHIF: 22/0030**

**Codi ffens a gatiau rhwyll weldio 1.8 metr o uchder ar hyd y ffin orllewinol, i ddiogelu'r safle ac atal tipio anghyfreithlon (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 9 Chwefror 2022), Tir i'r dwyrain o Stryd Glyn-mynach, Ynys-y-bwl , Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor, gan egluro mai 2 fetr fydd uchder y datblygiad arfaethedig, nid 1.8 metr. Yn dilyn trafodaeth gan y Pwyllgor, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes rhag pleidleisio ar yr eitem hon gan nad oedd yn bresennol ar gyfer y ddadl gyfan).

11 **CAIS RHIF: 22/0162**

**Newid defnydd llawr gwaelod yr adeilad o adwerthu (dosbarth defnydd A1) i fod yn swyddfa ddosbarthu (dosbarth defnydd A2), 2 Stryd Fawr, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

12 **CAIS RHIF: 22/0349**

**Cynnig i leoli campfa awyr agored gyda 10 darn o offer, safle o fewn Parc Tynybryn, Heol Tynybryn, Tonyrefail.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant mewn perthynas â'r cais uchod (Cofnod Rhif 1), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.

13 **CAIS RHIF: 22/0493**

**Gosod mast anemomedr 90m o uchder am gyfnod dros dro o hyd at 3 blynedd - strwythur sengl gyda rhaffau gwifren dur wedi'u cysylltu ag angorau daear 25m a 50m o'r mast, Tir ym Mynydd y Glyn, Trebanog, Porth.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

14 **CAIS RHIF: 21/1237/10**

**Newid defnydd o westy, siop cludfwyd a bar/bwyty i gartref gofal preswyl C2, gyda gwaith thirlunio a mynedfa gysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Ansawdd Aer ar 10 Ionawr 2022) Diamond Jubilee Hotel, Heol y Dwyrain, Tylorstown, CF43 3HE.**

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Bevan a J Edwards am y cais gan fynegi eu gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 17 Mawrth 2022, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (gweler cofnod 232).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddog ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, am y rhesymau canlynol:

> Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn gallu dangos y bydd digon o gyfleusterau parcio oddi ar y stryd ar gyfer trigolion, staff ac ymwelwyr, a hynny mewn modd sy'n gymesur â maint y datblygiad a'r math o ddefnydd dan sylw. O ganlyniad i hynny, byddai creu galw pellach am gyfleusterau parcio ar y stryd yn yr ardal yn niweidiol i ddiogelwch y briffordd, llif y traffig ac amwynder y meddianwyr cyfagos.
>
> Yn ogystal â hynny, byddai'r llety arfaethedig yn agos at briffordd brysur neu â golygfa wael, byddai hyn, ynghyd â chyfleusterau a mannau awyr agored cyfyngedig, yn creu amgylchedd byw o ansawdd gwael ac yn cael effaith negyddol ar breswylwyr y cartref gofal arfaethedig.
>
> Byddai'r datblygiad felly yn mynd yn groes i Bolisïau AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar gyfer Mynediad, Cylchrediad a Gofynion Parcio, a Dylunio a Chreu Lleoedd.

**15 CAIS RHIF 18/1346/10**

**Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianneg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Stryd y Clwb, Aberaman, Aberdâr.**

Gofynnwyd i'r Aelodau drafod yr adroddiad sy'n gofyn am weithred amrywio mewn perthynas â'r cytundeb Adran 106 ar gyfer y datblygiad, yn dilyn caniatáu'r cais yn ystod apêl a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2020.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau y dylid diwygio'r cytundeb Adran 106 ar gyfer Hen Ysgol Gyfun Blaengwawr gan ddiddymu'r gofyniad i ddarparu man chwarae lleol â chyfarpar ar gyfer plant hyd at 3 oed, ac ychwanegu gofyniad am gyfraniad ariannol gwerth £10,000 i'w ddefnyddio ar gyfer meysydd chwarae yn yr ardal yn rhan o'r telerau Cytundeb 106 heb eu diwygio sy'n weddill.

**16 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 4/03/2022 – 24/06/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.33 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**